Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad | Dyddiad: | Dydd Gwener, 23 Medi 2016 |
| | | Rhif Union: | 01824 712554 |
| | | ebost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO PERFFORMIAD, DYDD IAU, 29 MEDI 2016** am **9.30 am** yn **YSTAFELL BWLLGOR 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD** (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 7 - 16)

Derbyn cofnodion y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf, 2016 (copi ynghlwm).

**9.35am – 9.40am**

**5 ASESIADAU ATHRAWON A CHANLYNIADAU ARHOLIADAU DROS DRO** (Tudalennau 17 - 32)

Ystyried adroddiad ar y cyd (copi ynghlwm) gan y Prif Reolwr Addysg ac Uwch Ymgynghorydd Her GwE sy'n gofyn i’r Pwyllgor adolygu perfformiad ysgolion yn erbyn perfformiad blaenorol a meincnodau allanol sydd ar gael ar hyn o bryd, a nodi unrhyw feysydd posibl ar gyfer gwella.

**9.40am – 10.10am**

**6 CYNNYDD AR GYFLAWNI STRATEGAETH DAI SIR DDINBYCH: THEMA 2 - CREU CYFLENWAD O DAI FFORDDIADWY** (Tudalennau 33 - 44)

Ystyried adroddiad (copi ynghlwm) gan y Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai ar ddarparu Thema 2 Strategaeth Tai’r Cyngor: Creu cyflenwad o dai fforddiadwy.

**10.10am – 10.45am**

**EGWYL**

**7 ADRODDIAD EICH LLAIS – CHWARTER 1 2016/17** (Tudalennau 45 - 66)

Ystyried adroddiad (copi ynghlwm) gan y Swyddog Cwynion Corfforaethol sy'n gofyn i'r Pwyllgor adolygu perfformiad y Cyngor wrth ymdrin ag adborth cwsmeriaid a dysgu oddi wrth gwynion.

**11am – 11.30am**

**8 ADRODDIAD BLYNYDDOL AR DDIOGELU OEDOLION YN SIR DDINBYCH: 1 EBRILL 2015 – 31 MAWRTH 2016** (Tudalennau 67 - 78)

Ystyried adroddiad (copi ynghlwm) gan y Rheolwr Gwasanaethau Lleol ar effaith trefniadau ac arferion diogelu lleol yn Sir Ddinbych, a'r cynnydd a wnaed wrth ymateb i feysydd pryder a godwyd gan y Rheoleiddiwr yn ei Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol 2014-15.

**11.30am – 12pm**

**9 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO** (Tudalennau 79 - 96)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynydd Archwilio (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen waith y pwyllgor a rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r aelodau ar faterion perthnasol.

**12pm – 12.30pm**

**CINIO - CYFARFOD I AILYMGYNNULL AM 2pm**

**10 DIWEDDARIAD AR WASANAETHAU GOFAL MEWNOL** (Tudalennau 97 - 108)

Ystyried adroddiad y Grŵp Tasg a Gorffen (copi ynghlwm) ar y cynnydd hyd yma o ran yr ymgynghoriad ar ddyfodol darpariaeth gofal cymdeithasol mewnol y Cyngor ar gyfer pobl hŷn yn Hafan Dêg (Y Rhyl), Dolwen (Dinbych) , Cysgod y Gaer (Corwen) ac Awelon (Rhuthun) a gofyn i'r Pwyllgor wneud argymhellion i'r Cabinet mewn perthynas â darpariaeth yn y dyfodol yn Hafan Dêg a Dolwen.

**2pm – 3pm**

**11 ADRODDIAD PERFFORMIAD Y CYNLLUN CORFFORAETHOL - CHWARTER 1 2016/17** (Tudalennau 109 - 184)

Ystyried adroddiad (copi ynghlwm) gan Reolwr y Tîm Cynllunio Strategol yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu perfformiad y Cyngor o ran cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd ar gyfer y Cynllun Corfforaethol. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi gwybod i Aelodau am berfformiad Sir Ddinbych yn ystod 2015-16 o'i gymharu ag awdurdodau eraill.

**3pm – 3.30pm**

**12 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR**

Derbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr ar wahanol Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor

**RHAN 2 - EITEMAU CYFRINACHOL**

Dim.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Barry Mellor (Cadeirydd)
Raymond Bartley
Meirick Davies
Huw Hilditch-Roberts
Colin Hughes
Geraint Lloyd-Williams
Dewi Owens
Arwel Roberts
Gareth Sandilands
Joe Welch

**Aelodau Cyfetholedig dros Addysg sy'n Pleidleisio (Rhifau Eitemau Agenda 5 yn unig)**

Debra Houghton
John Piper
Gareth Williams

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned